# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-01-08)

**Dyddiad: 17 Ionawr 2008**
**Amser: 10.45am - 11.20am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Lesley Griffiths, Wrecsam
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett a Karen Sinclair.

### Eitem 2: Cynnig o dan Reol 10.37 y Rheolau Sefydlog i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3 a 4

2.1 Cynigiodd y Cadeirydd, o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi), i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3 a 4, er mwyn gallu ystyried dau adroddiad drafft a luniwyd gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

Cynhaliwyd y ddwy eitem nesaf yn breifat.

### Eitem 3: Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i dwbercwlosis mewn gwartheg yng Nghymru: trafod yr adroddiad drafft (yn breifat)

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Gadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gyflwyno adroddiad drafft yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ei ymchwiliad i dwbercwlosis mewn gwartheg yng Nghymru. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan Aelodau.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad, heb unrhyw newidiadau. Nododd y Pwyllgor wrthwynebiad gan Lorraine Barrett a oedd yn anghytuno ag argymhelliad 7 yr adroddiad.

### Eitem 4: Trafodaeth yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i glwy'r traed a'r genau: trafod yr adroddiad drafft (yn breifat)

4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Gadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gyflwyno adroddiad drafft yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i glwy'r traed a'r genau. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan Aelodau.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad, heb unrhyw newidiadau.

Cynhaliwyd gweddill y cyfarfod yn gyhoeddus.

### Eitem 5: Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon: trafod y papur cwmpasu ar ddiwydiant a chyrff cyhoeddus

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur cwmpasu ar adran diwydiant a chyrff cyhoeddus yr ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon a gwahoddodd sylwadau gan Aelodau.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adrod.